**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Cyfarfod aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Mawrth, 14 Mehefin 2022 am 2.00pm**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| M Bailey | P Downing | A J Jeffery |
| M H Jones | S E Keeton | M B Lewis |
| R D Lewis | N L Matthews | T M White |
| R A Williams | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Sally-Ann Evans | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Andrew Ferguson | Arweinydd Tîm Ardal |
| Chris Healey | Arweinydd Tîm Ardal |
| Hayley Kemp | Arweinydd Tîm Ardal |
| Amanda Pugh | Prif Beiriannydd |

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Cynghorydd(wyr): P M Black

---

## 4 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorwyr P Downing a P Lloyd – Eitem 6 (2018/2629/FUL) – Personol.

Y Cynghorydd R D Lewis - Ceisiadau Cynllunio - Eitem 3 (2022/0877/FUL) – Personol.

## 5 Cofnodion

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 5 Ebrill a 24 Mai 2022 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

## 6 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl

Dim.

## 7 Hawliau Tramwy Cyhoeddus – Cais ar gyfer Gorchymyn Addasu i ychwanegu llwybr troed sy'n rhedeg o Herbert Thomas Way (y cefnffordd) i Herbert Thomas Way (y ffordd ddolen), cymuned Gellifedw

Cyflwynodd y Cyfreithiwr Arweiniol adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth a ddylid derbyn neu wrthod y cais a wnaed i'r awdurdod i wneud Gorchymyn Addasu i ychwanegu llwybr troed sy'n rhedeg o Herbert Thomas Way (y cefnffordd) i Herbert Thomas Way (y ffordd ddolen) a thrwy hyn ei gofnodi felly ar Fap Diffiniol Hawliau Tramwy Cyhoeddus y cyngor.

Amlinellwyd y sefyllfa gyfreithiol, manylion cefndir a hanes y mater a manylwyd arnynt yn yr adroddiad gan Swyddogion.

Amlinellwyd y rhestr o gyrff yr ymgynghorwyd â hwy ynglŷn â'r cais a nodwyd yn yr adroddiad, yn ogystal â'r ymatebion a gafwyd.

**Penderfynwyd** gwrthod y cais ac na ddylid gwneud Gorchymyn Addasu i ychwanegu llwybr troed fel y gofynnwyd amdano.

## 8 Cais Cynllunio 2018/2629/FUL - ar dir oddi ar Coed Bach Road, Pontarddulais, Abertawe

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu adroddiad a oedd yn amlinellu'r cefndir i ohirio cais 2018/2629/FUL yn y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 5 Ebrill 2022.

Dywedodd fod yr ymgeisydd wedi cyflwyno cynlluniau diwygiedig ers i'r cais gael ei ohirio, ac er yr aethpwyd i'r afael â rhai o'r rhesymau dros wrthod y cais, roedd nifer o broblemau nad oeddent wedi'u goresgyn. Mater arall a nodwyd oedd bod Swyddogion bellach yn ystyried nad yw'r cais ar gyfer mynediad wedi ei weithredu'n gyfreithiol a bod y caniatâd cynllunio bellach wedi dod i ben.

Dywedodd, er mwyn cynnal trafodaethau pellach gyda'r ymgeisydd, y bydd angen gohirio'r cais a gwneud penderfyniad yn ei gylch mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 9 Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#) (Sylwer: Dosbarthwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad y cyfeirir ato isod i Aelodau'r Pwyllgor yn ogystal â'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor y diwrnod cyn y cyfarfod)

**Penderfynwyd cymeradwyo**'r ceisiadau cynllunio isod yn unol â'r amodau yn yr adroddiad a/neu a nodir isod:

**#(Eitem 1) – Cais Cynllunio 2021/1088/FUL - Addasu rhan o siop fanwerthu (Dosbarth A1) yn siop cludfwyd poeth ategol (Dosbarth A3 yn Cks Supermarket, 39 Swansea Road, Waunarlwydd, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchodd Hazel Webb (gwrthwynebydd) y Pwyllgor.

Anerchodd y Cynghorydd Wendy Lewis (Aelod Lleol) y Pwyllgor a siaradodd yn erbyn y cais.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Mae camgymeriad ar dudalen 25 yr adroddiad. Pan gyflwynwyd y cais, roedd y safle yn Ward y Cocyd, ond mae bellach yn Ward Waunarlwydd, yn dilyn newidiadau diweddar i ffiniau'r Wardiau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2022.

Derbyniwyd un llythyr gwrthwynebu hwyr mewn ymateb i'r cais a oedd yn gwneud y pwyntiau canlynol:

- Mae defnydd A3 yn caniatáu’r opsiwn i fwyta bwyd ar y safle ac oddi arno – ydy'r defnydd hwn ar gyfer siop gludfwyd yn unig neu a ellir ei newid?
- Am faint o amser y bydd cyfyngiad oriau agor ar waith ac a ellir ei newid?
- Mae gan y siop broblemau parcio yn barod gyda lorïau'n rhwystro'r heol.
- Mae'r uned cludfwyd poeth hen sefydledig yn gownter di-griw – nid yw hyn yr un peth â siop gludfwyd.

Mewn ymateb, gallai'r defnydd A3 ganiatáu i bobl eistedd dan do ond mae'r lle'n gyfyngedig a byddai hyn yn cael llai o effaith na siop gludfwyd ym mhob achos. Byddai angen diwygio'n ffurfiol unrhyw oriau agor a sicrhawyd dan amod trwy gais cynllunio dilynol. Mae sylwadau ar gyflawni eisoes wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ynghyd ag asesiad o'r defnydd ei hun.

**#Eitem 2) – Cais Cynllunio 2021/1048/FUL - Adeiladu bwyty â chyfleuster gyrru drwodd, ynghyd â lleoedd parcio, a gwaith tirlunio yn Tesco Extra, Parc Fforestfach, Cadle, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:

Mae camgymeriad yn Amod 13, ar dudalen 49 yr adroddiad, o ran y gair 'Datblygiad', dylid ei ddileu a rhoi 'Cyflawni' yn ei le. Felly dylai Amod 13 ddarllen:

'Rhaid ymgymryd â'r datblygiad arfaethedig yn unol â'r Cynllun Rheoli Cyflawni Diwygiedig cymeradwy a dderbyniwyd ar 13 Ebrill 2022 a dylid ei weithredu a'i ddilyn bob amser oni bai y cytunir yn wahanol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol'

Rheswm: Lleihau'r tebygolrwydd o rwystro'r briffordd, peri perygl i ddefnyddwyr y ffordd, gwarchod iechyd cyhoeddus ac amwynder lleol, er mwyn sicrhau bod safon

foddhaol o ddatblygu cynaliadwy ac er mwyn sicrhau bod safon dda o ddatblygiad a golwg i gadw amwynderau a chymeriad pensaernïol yr ardal.

**Eitem 3) – Cais Cynllunio 2022/0877/FUL - Creu mynedfa i gerbydau ac estyniad ochr unllawr i annedd yn 43 Cambridge Road, Langland, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.53pm

**Cadeirydd**